PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 22 | Mai 30, 2024 | 50c.

## Dathlu mawr yn yr Hendy-gwyn

Bu dathlu mawr yn yr Hendy-gwyn yn ddiweddar wrth i gapel y Tabernacl ddathlu ei ben-blwydd yn 150. Agorwyd y capel ar 19 Mai 1874 ac union 150 mlynedd yn ddiweddarach i'r diwrnod daeth tyrfa fawr ynghyd ar ddiwrnod heulog i ddathlu'r achlysur.

Agorwyd yr oedfa gan gôr merched y Tabernacl a greodd ysbryd a naws hyfryd a barhaodd trwy gydol yr oedfa. Dim ond saith gweinidog a gafodd yr eglwys yn ystod y 150 mlynedd ac roedd pedwar ohonynt yn bresennol yn y dathliad sef Tom Defis, Llewelyn Picton Jones, Jill-Hailey Harries a Guto Llywelyn. Roedd y gweinidog presennol yn llywyddu a chafwyd y rhannau arweiniol gan Tom, Llew a Jill.





### Ieuenctid

Mae Clwb Hwyl y plant wedi denu dros ugain o blant i'r capel yn y flwyddyn ddiwethaf yma ac roeddent i gyd yno. Fe gawsant stori, cyn canu cân ac fe wnaethant hefyd ganu pen-blwydd hapus i'r Tabernacl. Roedd rhai o ieuenctid y capel yn bresennol hefyd ac fe wnaethant adrodd hanes y capel ar hyd y degawdau

### Cyfarchion

Rhoddwyd cyfarchion ar ran y ddwy eglwys arall yn yr ofalaeth gan Pamela Lewis (Bethel Llanddewi) a Delyth Dent (Trinity Llanboidy). Hefyd cafwyd cyfarchion gan Elonwy Phillips ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin a hefyd Jeff Williams y Llywydd ar ran Undeb yr Annibynwyr.

### Pregeth

Y pregethwr gwadd oedd Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb. Cafwyd pregeth rymus ganddo'n seiliedig ar hanes yr hen genedl yn codi tabernacl symudol lle y gallent addoli, wrth iddynt grwydro o'r Aifft tuag at wlad yr addewid.

Yn dilyn yr oedfa roedd gwledd wedi ei pharatoi yn y festri. Aeth y cymdeithasu a'r rhannu atgofion ymlaen am amser maith a doedd neb yn awyddus i fynd adref. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy fel y gwelwch yn y lluniau o'r diwrnod a dynnwyd gan ein ffotograffydd Diane Evans.

**Guto Llywelyn**

*mwy am Hendy-gwyn ar dudalen 2*



## Caersalem, Pontyberem

Bore Sul 12 Mai 2024 cynhaliwyd oedfa hanesyddol yn Eglwys Caersalem Pontyberem. Wrth fwrdd y cymun o dan ofal y gweinidog y Parchg Emlyn Dole cofiwyd a diolchwyd am fywyd y diweddar aelod hynaf yr eglwys, Mrs Una Howells Blaenlliedi, a fu farw yn 103 oed. Wrth gydymdeimlo â'r teulu a chofio'n dyner amdani, braint o'r mwyaf oedd cael derbyn ei ŵyr, Philip Evans, yn aelod yng Nghaersalem. Estynnwyd croeso cynnes iddo gan y gweinidog a'r cyd-aelodau.



# 150 TABERNACL, HENDY-GWYN AR DAF

Addoldy'r Annibynwyr yn Hendy-gwyn oedd capel bychan Soar a saif ar gyrion y dref ac mae achos yr Annibynwyr yn dyddio yn ôl i 1855.

Oherwydd dyfodiad y rheilffordd, datblygodd tref Hendy-gwyn yn gyflym iawn. Teimlodd yr aelodau yn Soar fod angen addoldy llawer mwy o faint, ac un a fyddai ynghanol bwrlwm y dref. Cafwyd safle addas yn y dref ac adeiladwyd y Tabernacl yn 1873 a'i agor yn 1874. Adeilad urddasol iawn oedd hwn â lle i 650, er mai 120 o aelodau oedd ar y pryd. Roedd y gost yn £1,600, ond fe gliriwyd y cyfan o fewn pedair blynedd.

Y Parchg William Thomas oedd y gweinidog cyntaf, gan weinidogaethu'n gyntaf ar eglwysi Soar a Bethel Llanddewi, ac yna'r Tabernacl, am gyfanswm o hanner cant a thair o flynyddoedd.

Fe'i holynwyd gan y Parchg Gwilym Higgs, a fu'n driw i'r ofalaeth am dros ddeugain mlynedd gan ymddeol ym 1949. Sefydlwyd y Parchg Huw Francis yn weinidog yn eglwys y Tabernacl, ynghyd â Bethel Llanddewi, ym mis Hydref 1950. Bu yma'n weinidog yr efengyl a bugail ffyddlon am 29 o flynyddoedd.

Ym mis Medi 1981 unodd eglwys Trinity Llanboidy â'r ofalaeth ac ordeiniwyd y Parchg Tom Defis i weinidogaethu yn y cylch. Yna, rhwng 1995 a 1999 bu'r Parchg Llewelyn Picton Jones yn weinidog ar y tair eglwys. Ym mis Gorffennaf 2002 sefydlwyd y Parchg Jill-Hailey Harries, merch o Landysilio yn weinidog ar yr ofalaeth.

Ar hyn o bryd, ein gweinidog yw'r Parchg Guto Llywelyn a sefydlwyd ym mis Mai 2013.

Gosodwyd sgriniau teledu yn y capel yn 2018, ac yn 2019 cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf erioed ar hanes capel y Tabernacl gan yr awdur a'r hanesydd, Denley Owen, Llanymddyfri.

**Rhodri Glyn Thomas**

## Capel Coffa, Cyffordd Llandudno

Ysgrifennydd Cyffredinol
Capel Coffa yw:

D. Glyn Williams, Lliwen,
12 Coed y Glyn, Llandudno LL30 1JL.

Rhif ffôn: (01492) 581439
Symudol: 07866 126072

davidglynwilliams01@gmail.com

# 40 mlynedd o wrando

Cafodd mudiad y Samariaid ei sefydlu yn 1953 gan Chad Varah a oedd yn ficer yn Eglwys Lloegr. Un o'i ddyletswyddau yn ei swydd gyntaf yn ei ardal enedigol, Lincoln, oedd gweinyddu mewn angladd merch 14 oed a oedd wedi diweddu ei bywyd pan ddechreuodd ar ei misglwyf a meddwl mai'r diafol oedd wedi'i meddiannu. Doedd ganddi neb i rannu ei phryder a chafodd hyn argraff ddofn ar y Chad ifanc ac ychydig flynyddoedd wedyn, sefydlodd y Samariaid, gyda'r nod o gynnig math o wasanaeth 999 i'r rhai oedd yn meddwl diweddu eu bywydau. Roedd y gangen gyntaf yn festri eglwys Chad Varah yn St Stephen Walbrook yn Llundain. Heddiw mae gan y Samariaid dros 200 o ganghennau ledled gwledydd Prydain ac Iwerddon. Mae holl wirfoddolwyr y Samariaid yn cynnig eu gwasanaeth am ddim ac yn treulio bron i filiwn o oriau bob blwyddyn yn ceisio gwneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai sy'n galw.

### Rhoi clust

Clust i wrando yw'r gwasanaeth 24 awr a gynigir gan y Samariaid, a gweledigaeth y mudiad yw y bydd llai o bobl yn marw trwy hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel, mae'n bosib ei rwystro ac mae ymchwil byd eang wedi dod i'r casgliad mai'r allwedd i geisio rhwystro marwolaethau o'r fath yw'r cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau am hunanladdiad yn gymhleth, ond y tu ôl i bob achos mae unigolyn sy'n gadael teulu a chymuned wedi eu dryllio gan eu colled. Yng Nghymru yn 2023, diweddodd 356 o bobl eu bywydau ac yn gyffredinol roedd cyfradd y marwolaethau'n uwch yn yr ardaloedd gwledig.

### 3.3 miliwn o alwadau

Nid oes rhaid bod â theimladau hunanladdiad i gysylltu fodd bynnag, mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth gefnogaeth emosiynol i unrhyw un sydd yn anobeithio, yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn unig, neu'n cael problemau perthynas. Yn 2023 ymatebodd y Samariaid i alwad am gymorth bob 10 eiliad, gan ateb 3.3 miliwn o alwadau am gymorth dros y gwahanol gyfryngau sydd ar gael i gysylltu. Y ffôn yw'r dull mwyaf poblogaidd i gysylltu o hyd ac atebwyd dros 3 miliwn o alwadau ffôn; nid oedd dim eiliad pan nad oedd y Samariaid ar y ffôn yn gwrando. Mae'r gwasanaeth rhadffôn Saesneg ar gael 24 awr y dydd bob dydd o'r flwyddyn ar **116 123**. Mae'r **Llinell Gymraeg** ar gael yn rhad ac am ddim hefyd o 7 tan 11 bob nos ar **0808 1640123**.

### Angen gwirfoddolwyr

Y gangen gyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru oedd yn Abertawe yn 1961 ac agorwyd saith cangen arall dros y blynyddoedd yn ddiweddarach, wedi eu lleoli yn Y Rhyl, Bangor, Aberystwyth, Llandrindod, Hwlffordd, Pen-y-bont ar Ogwr, Cymoedd De Cymru, Caerdydd a Chasnewydd, gan wasanaethu'r ardaloedd cyfagos iddynt. Er mwyn ymateb i'r galw am y gwasanaeth, mae'r angen am wirfoddolwyr yn barhaus ac yn arbennig Cymry Cymraeg. Gellir darganfod mwy am sut i ddod yn wirfoddolwr ar wefan y Samariaid: www.samaritans.org neu yng ngogledd Cymru trwy'r wefan www.samariaidbangor.cymru.

Ar 20 Mai eleni bydd Cangen Gogledd Orllewin Cymru ym Mangor yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 mlwydd oed. Ers ei sefydlu yn 1984 mae'r gangen hon wedi ymateb i dros dri chwarter miliwn o alwadau am gymorth, gyda dros 900 o bobl wedi cynnig eu hunain i wirfoddoli dros y blynyddoedd. I nodi'r achlysur lansir llyfr dwyieithog, gyda gwybodaeth am fudiad y Samariaid a hanes 40 mlynedd gyntaf y gangen, *40 Mlynedd o Wrando*. Ei bris drwy'r post yw £13 a gellir archebu trwy gysylltu â tudur.colwyn@gmail.com.

*Tudur Williams*

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Yr Adran Gydenwadol

MAI 30 2024 RHIF 170

# Gweddarlledu cynhadledd Gristnogol o Gymru i Ewrop

Bob tair blynedd bydd rhwydwaith trefnyddion gwaith plant eglwysig o bob rhan o Ewrop yn cyfarfod â'i gilydd mewn cynhadledd (sef ECCE: European Conference on Christian Education) rywle yn Ewrop. Y llynedd cynhaliwyd y gynhadledd honno yn Hwngari. Bydd y gynhadledd nesaf yng Ngenefa yn 2026, ac yn ddiweddar bûm allan yn y wlad yn dechrau ar y broses o drefnu, gan sicrhau lleoliad, thema ayyb. Gan fod tair blynedd yn gyfnod hir heb inni weld ein gilydd, penderfynwyd y byddem yn cyfarfod yn rhithiol rhwng y cyfarfodydd hynny, gan gynnal digwyddiad blynyddol ar Zoom. Eisoes cynhaliwyd dau o'r rheini, a chafwyd cwmni Lucy Moore o Llan Llanast yn y digwyddiad cyntaf, a Bob Hartman o Agor y Llyfr yn yr un dilynol. Maent wedi bod yn ddigwyddiadau llwyddiannus iawn, gan ddod â dros 100 o weithwyr ledled Ewrop at ei gilydd. Felly, yn ystod ein hamser yng Ngenefa, fe wnaethon ni drefnu a chynnal digwyddiad rhithiol oddi yno, a braf oedd croesawu pobl o 14 gwlad wahanol atom i'r cyfarfod.

**Sgwrs o Bort Talbot**

Ein siaradwraig wadd eleni oedd Judy Harris o Bort Talbot, ac oddi yno yr ymunodd hi â ni i gyflwyno'i sgwrs. Albanes yw Judy o ran ei magwraeth, ac fe'i hordeiniwyd yn ddiacon gydag Eglwys yr Alban. Ond mae hi wedi byw a gweithio yng Nghymru ers dros 25 mlynedd bellach. Mae Judy yn gweithio i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig fel trefnydd cenedlaethol gwaith plant ac ieuenctid yng Nghymru. Mae'n credu'n gryf ym mhwysigrwydd chwarae – a hynny ar gyfer pob oed. Fe wnaeth hi arwain sesiwn ar ein cyfer o dan y teitl 'Let us Play', gan ein cyflwyno i'r cyfleoedd chwarae o fewn ein gwaith eglwysig.

**Chwarae a Chredu**

Yn ddiweddar cyhoeddwyd Chwarae a Chredu yn Gymraeg, sef addasiad o waith Jerome Berryman, Godly Play. Diddorol oedd deall bod y cynllun hwnnw wedi ei gyfieithu i nifer o ieithoedd ar draws Ewrop, a gwelsom gopïau yn Ffrangeg ac Almaeneg tra oeddem yng Ngenefa.



Er bod yna amrywiaethau mawr rhyngom fel gwledydd ac enwadau, mae'n ddiddorol gweld sut mae cynlluniau fel Llan Llanast, Chwarae a Chredu, Agor y Llyfr ayyb yn dwyn bendith ar hyd a lled Ewrop. Diolch am bob cyfle a gawn i rannu a chyflwyno syniadau newydd, a gobeithio bydd mwy i'w rannu wrth inni ymgynnull yng Ngenefa ymhen dwy flynedd.

*Aled Davies,*
*Cyngor yr Ysgolion Sul*



# Ymddiriedolaeth Trussell yn cyhoeddi ei faniffesto ei hun ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024

Fe ddyblodd y galw am becynnau bwyd brys gan rwydwaith banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rhannwyd mwy o becynnau nag erioed yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl adroddiad gan yr elusen.

Dangosodd ffigurau diweddaraf yr elusen, a ryddhawyd ddechrau Mai, fod eu banciau bwyd ar draws y Deyrnas Unedig wedi dosbarthu 3.1 miliwn o barseli bwyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, 1.1. miliwn o'r rheiny i blant. Aeth tua 65% o'r cymorth i deuluoedd â phlant.

Bu cynnydd o 94% yn y galw am y gwasanaeth ers 2019, gyda chynnydd o 4% ers y llynedd yn unig. Galwodd Emma Rieve, Prif Weithredwraig Ymddiriedolaeth Trussell, ar i arweinyddion gwleidyddol gyhoeddi eu polisïau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer etholiad cyffredinol er mwyn sicrhau na fydd angen defnyddio banciau bwyd yn y Deyrnas Unedig.

Dywedodd Emma: "Mae'n 2024, ac rydym yn wynebu'r angen mwyaf erioed am fanciau bwyd. Wrth i ni agosáu at etholiad cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig, mae angen i ni glywed ar frys sut y bydd y pleidiau'n adeiladu dyfodol lle na fydd angen banc bwyd ar unrhyw un i oroesi. Mae'n hanfodol fod ein system nawdd cymdeithasol, nad yw'n darparu digon o gymorth i bobl allu fforddio'r hanfodion hyd yn oed ar hyn o bryd, yn cael ei diwygio ar frys. Byddai cyflwyno 'Gwarant Hanfodion' ar gyfer Credyd Cynhwysol yn sicrhau bod pawb yn cael sicrwydd o isafswm cymorth i allu fforddio'r hanfodion.

"Nid banciau bwyd yw'r ateb. Byddan nhw yno i gefnogi pobl cyhyd ag y bydd eu hangen, ond mae'n rhaid i'n harweinwyr gwleidyddol gymryd camau dewr er mwyn adeiladu dyfodol lle mae gan bawb ddigon o fodd i brynu angenrheidiau bywyd."

Gellir darllen dogfen faniffesto Gymraeg yr ymddiriedolaeth o ddilyn y ddolen isod. Ynddi maent yn nodi'r blociau adeiladu ar gyfer rhoi diwedd ar yr angen am fanciau bwyd:

[Maniffesto etholiad cyffredinol 2024 cymraeg.pdf (trusselltrust.org)]




S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 2 Mehefin, am 7.30yh**

Wythnos y Gwirfoddolwyr
Ymunwch â Nia Roberts yng Ngheinewydd i gwrdd ag un o'r criwiau bad achub sy'n arbed bywydau ar y môr, a'r fyddin fechan o wirfoddolwyr sydd wrthi'n ddiwyd yn cadw ein traethau'n lân a diogel. Cawn fwynhau canu mawl o bob rhan o Gymru.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 2 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Jim Clarke

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 2 Mehefin, am 12yp**

Oedfa dan ofal Wyn Maskell, Bro Aeron Mydr

# ‘Ai am fy meiau i’ – myfyrdod ar emyn John Elias o Fôn (a aned 250 o flynyddoedd yn ôl)

Ai am fy meiau i
dioddefodd Iesu mawr
pan ddaeth yng ngrym ei gariad ef
o entrych nef i lawr?

Cyflawnai’r gyfraith bur,
cyfiawnder gafodd lawn,
a’r ddyled fawr, er cymaint oedd,
a dalodd ef yn llawn.

Dioddefodd angau loes
yn ufudd ar y bryn,
a’i waed a ylch y galon ddu
yn lân fel eira gwyn.

Bu’n angau i’n hangau ni
wrth farw ar y pren,
a thrwy el waed y dygir llu,
drwy angau, i’r nefoedd wen.

Pan grymodd ef ei ben
wrth farw yn ein lle,
agorodd ffordd, pan rwygai’r llen,
i bur drigfannau’r ne’.

Gorchfygodd uffern ddu,
gwnaeth ben y sarff yn friw;
o’r carchar caeth y dygir llu,
drwy ras, i deulu Duw.

JOHN ELIAS, 1774–1841
(*Caneuon Ffydd*, 482)

**Myfyrdod**
Rhyfeddod sydd wrth wraidd y cwestiwn yn yr emyn hwn – un o rai enwocaf John Elias o Fôn. Defnyddio cwestiwn ei forwyn Mary a wnaeth John Elias. “Ai am fy meiau i y dioddefodd Iesu mawr?” holodd un bore ar ôl i’w meistr fod yn cadw dyletswydd deuluol a darllen Eseia 53. Mae yna enghraifft yma o sut y gall yr Ysgrythur siarad â chalon yr unigolyn a’i chymhwyso’i hun i’n sefyllfa ni: ‘Ond fe archollwyd ef am ein troseddau ni, a’i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd’, meddai’r bumed adnod o’r bennod. Wyddom ni ddim beth oedd yn pwyso ar feddwl Mary, beth oedd y ‘beiau’ oedd yn ei chyhuddo wrthi ei hun, ond mae yna draddodiad bod gan deulu John Elias forwyn a arferai fod yn un o’r ‘copper ladies’ yng ngwaith Mynydd Parys ac yn un lac iawn ei moesau, ond a drodd yn rhyfeddol at Grist ac a olchwyd yn lân ‘fel eira gwyn’. Os mai hon oedd Mary, yna roedd hi eisoes wedi cael ateb i’w chwestiwn, ond yn parhau i synnu bod y fath waredigaeth yn bosibl.

Darllen o’r bennod fawr hon (Eseia 53) sydd yn llawn o Newyddion Da’r Testament Newydd oedd yr eunuch hwnnw oedd ar ei ffordd yn ôl at ei frenhines yn Ethiopia yn Actau 8 pan ddanfonwyd Philip gan yr Ysbryd Glân at ei gerbyd gan esbonio’i benbleth iddo a’i arwain at wrthrych y bennod, Iesu Grist, ‘Oen Duw sy’n cymryd ymaith bechod y byd’ (Ioan 1:29). Bedyddiwyd yr eunuch o Ethiopia yn y fan a’r lle pan ddaeth i gredu’r Newyddion Da am Iesu Grist, a chyfeiriad at hynny a arferai fod yn y trydydd pennill: ‘a ylch yr Ethiop du’, ond bellach a aeth yn ‘galon ddu’ yn *Caneuon Ffydd*.

Datguddir calon fawr Duw ei hun tuag atom yn yr emyn, ond allwn ni ddim profi ‘grym ei gariad ef’ nes down i sylweddoli, fel Mary, ein bod, nid yn unig wedi torri ‘cyfraith bur’ Duw, ond hefyd ei galon. Does dim rhaid inni ofni agor yr hyn sydd yn ein calonnau ni i’r galon ddwyfol oherwydd ‘agorodd (Iesu) ffordd, pan rwygai’r llen, i bur drigfannau’r ne’. Daeth i’r byd i’r union bwrpas hwnnw, i faddau beiau ac i’n dwyn ninnau ‘drwy ras, i deulu Duw’.

**Gweddi**
O Dad, oes yna unrhyw beth cyn hardded â’r gras sydd yn maddau beiau? Gofynnaf innau fy nghwestiwn i ti, ac ni wn i am ddim arall all dalu’r ddyled fawr, er cymaint oedd, a gwneud hynny yn llawn. Helpa fi i‘w dderbyn – am nad oes ateb arall i bechod. Yn enw Iesu rwy’n gofyn. Amen.

(Allan o *Emynau’r Ffydd*, Huw Powell-Davies, 2004)

# ETHOLIAD CYFFREDINOL 2024

Bellach gyda dyddiad yr Etholiad Cyffredinol Prydeinig wedi ei bennu ar Gorffennaf 4ydd, fe welwn fod eglwysi a mudiadau Cristnogol ar draws y Deyrnas Unedig yn paratoi ar gyfer sicrhau llais Cristnogol yn ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol,

Bydd deunydd dwyieithog wedi’i addasu ar gyfer Cymru ar gael ar wefan Cytûn – https://www.cytun.co.uk/etholiad-2024/ (a bydd dolen o dudalen flaen y wefan hefyd). Yno eisoes mae gwybodaeth am y rheolau newydd ynghylch darparu dogfennau adnabod er mwyn pleidleisio, a chanllaw manwl ar drefnu cyfarfod gyda’r ymgeiswyr yn eich etholaeth – boed mewn cyfarfod cyhoeddus traddodiadol, ar lein, neu mewn nifer o fformatau mwy rhyngweithiol. Anogir grwpiau Cytûn lleol a grwpiau eraill o eglwysi i gydweithio i drefnu’r cyfarfodydd hyn, all gyfrannu llawer at drafodaeth gytbwys yn ystod yr ymgyrch.

Bwriedir ychwanegu papurau briffio am feysydd polisi gan rai o’n haelod eglwysi, a hefyd ddolenni i wefannau eglwysi a mudiadau eraill all fod yn ddefnyddiol, felly dychwelwch yn rheolaidd i’r wefan i weld beth sy’n newydd yno. Mae ein cydweithwyr yn Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn trefnu gwefan debyg, gyda deunydd o bob rhan o’r Deyrnas Unedig (yn Saesneg yn unig) – https://www.churcheselection.org.uk/

Ymhlith aelod eglwysi Cytûn sydd eisoes wedi dechrau cyhoeddi eu deunydd eu hunain ar gyfer yr etholiad mae Cymdeithas y Cyfeillion a thîm materion cyhoeddus yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ac Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr. Mae rhai o’n haelod enwadau a mudiadau yn aelodau o glymbleidiau ehangach megis Let’s End Poverty, sy’n ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o dlodi gartref a thramor yn ystod cyfnod yr etholiad.

(Allan o Fwletin Polisi Cytûn, Mehefin/Gorffennaf 2024)

# Craig yr Undeb

Saif Craig yr Undeb o fewn tafliad carreg i bont Pen Llyn ac o fewn clyw i'r tylluanod a glywodd Williams-Parry o Lwyncoed, Cwm-y-glo. Yng nghanol eu brwydr am well cyflog ac amodau gwaith, wrth y graig hon yr arferai chwarelwyr Dyffryn Peris gyfarfod cyn ac wedi sefydlu Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru ym 1874, ac wedi hynny pan fyddai streic yn y chwareli. Daeth yn fan cyfarfod i'r chwarelwyr am ei bod ar dir nad oedd yn eiddo i berchnogion y gwaith.






### Lôn Las Peris

Arferwn fynd heibio iddi bob dydd ar y ffordd i'r ysgol uwchradd, ond caewyd y darn o'r ffordd ar lan llyn Padarn sy'n mynd heibio iddi ddeugain mlynedd yn ôl. Mae modd gweld y graig o'r ffordd newydd gerllaw; ond i'w gweld yn iawn, rhaid mynd am dro ar hyd yr hen ffordd sydd bellach yn rhan o Lôn Las Peris. Wêl yr anghyfarwydd ddim byd arbennig am y graig neu'r bryncyn, ond daw'r sawl sy'n oedi wrth y llechen a'r arwydd sy'n adrodd ei hanes yn ymwybodol o arwyddocâd y lle i hanes y dyffryn a'i weithwyr.'Arwain fi at graig sy'n uwch na mi', meddai'r Salmydd (Salm 61:2). Ac adleisio'r adnod a wna Morswyn wrth ganu:

> Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
> At y Graig sydd uwch na mi ...
> (emyn 740 yn *Caneuon Ffydd*).

Ond wêl yr anghyfarwydd ddim o werth yn y graig honno chwaith. Dim ond y sawl sy'n oedi wrth fryncyn rhagorach, bryncyn Calfaria, a wêl mai Duw a Christ yw 'Craig yr Oesoedd'; y 'graig safadwy' a'r 'graig a ddeil yng ngrym y lli'.

### Craig yr Oesoedd

Gwibio heibio i Graig yr Undeb ar hyd y ffordd newydd a wna'r rhelyw, yn bobl leol ac ymwelwyr. Ond mae rhai yn oedi. A'r Sadwrn o'r blaen, cafwyd gorymdaith ati i ddathlu 150mlwyddiant sefydlu'r Undeb. Rhywsut, gwibio heibio i Graig yr Oesoedd a wna'r rhelyw yng Nghymru heddiw, heb sylwi ar gadernid Duw na phrydferthwch Crist, er bod rhai ohonynt o bosib yn cofio y bu yma unwaith sôn am Greawdwr a Gwaredwr. Ond trwy ras Duw, mae rhai o hyd yn cerdded yr hen ffordd sydd wastad yn newydd, gan oedi i syllu ar Grist y groes a'r bedd gwag. Mae rhai o hyd yn dod ato mewn ffydd, gan ymateb i anogaeth Morgan Rhys ac Eseia 42:11, 'O caned preswylwyr y Graig'. Ac mewn gwirionedd, onid Crist yw gwir Graig yr Undeb sy'n ein huno ni â Duw?

**John Pritchard**
(allan o *Llais Bro Aled*, Dydd Sul, 5 Mai 2024)

Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin
SUL SBESIAL 2024
Yr Egin, Caerfyrddin
14 Gorffennaf 2.00-3.15



Siaradwr Gwadd:
Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu Dyfed-Powys
Llywyddu:
Parchg GUTO PRYS AP GWYNFOR
Sesiwn y plant: KAREN OWEN
Yn cyfeilio: BAND Y PRIORDY
Mynediad am ddim. Caffi ar agor.
Croeso cynnes iawn i bawb!

## Chwi yw halen y ddaear: efengyl Mathew, pennod 5

> 13 'Chi ydy halen y ddaear. Ond pan mae'r halen wedi colli ei flas pa obaith sydd i'w wneud yn hallt eto? Dydy e'n dda i ddim ond i'w daflu i ffwrdd a'i sathru dan draed.'

Roedd yr Iesu'n aml yn defnyddio delweddau neu straeon i gyflwyno gwirionedd am Dduw a gwaith ei deyrnas. Mae hon yn ffordd hynod o effeithiol wrth ddysgu gan ein bod i gyd yn hoffi clywed straeon. Hefyd rydym yn cofio straeon a darluniau'n llawer gwell na ffeithiau moel. Hefyd gellir deall cymhariaeth neu stori ar wahanol lefelau, gellir aros yn arwynebol neu gellir plymio i'r dyfnderoedd. Yn aml mae Iesu'n rhoi lle i'r gwrandäwr i ddadansoddi'r stori wrth feddwl am eu hamgylchiadau hwy eu hunain a'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Trwy hyn mae'r Ysbryd yn cymhwyso gwaith teyrnas Dduw yn effeithiol i'r cyfnod rydym yn byw ynddo. Byddai Cristion yn yr ail ganrif yn eu dadansoddi ychydig yn wahanol i'r hyn a wnawn ni yn awr.

### Halen

Yn yr adnod hon mae'r Iesu yn galw ei ddisgyblion yn halen y ddaear. Beth ellir ei wneud gyda halen? Wel, dyma ddau beth.

*Blas* – mae pobl ers cyn cof yn rhoi halen ar fwyd er mwyn rhoi mwy o flas arno. Nid yw pysgod a sglodion yr un fath heb binsied helaeth o halen.
*Cadw* – mae halen yn atal bwyd, yn benodol cig, rhag pydru. Roedd pobl yn y gorffennol yn halltu cig yn y cyfnod cyn oergell er mwyn ei gadw. Roedd hynny yn eu galluogi i fwyta dros y gaeaf pan oedd bwyd yn brin.
Os nad yw halen yn gwneud yr hyn a ddisgwylir iddo wneud, sef halltu, rhaid ei luchio.

Y wers syml gan Iesu yw ein bod ni ei ddisgyblion i fod yn debyg i halen yn rhoi:

### Blas ar fywyd

Sut mae cael blas ar fywyd? Bod ein bywydau fel disgyblion Iesu yn gwneud y gymdeithas yn lle da i fyw ynddo trwy inni roi gwell blas ar ein cymuned. Beth fyddai hyn yn golygu? Fe olyga ein bod ni fel Cristnogion yn gweithredu yn llawn cariad, haelioni a llawenydd yn lleol ac yn fyd-eang gan wneud bywyd yn well i eraill.

### Cadw

Sut mae cadw pethau? Bod ein bywydau fel disgyblion Iesu yn gwneud y gymdeithas yn lle diogel a sefydlog i fyw

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## Gwinllan

Sawl un ohonoch chi sydd yn cofio Cynhadledd y Genhadaeth a gynhaliwyd yn y Barri bob blwyddyn? Cynhadledd a ddylanwadodd ar bobol ifanc ar draws yr enwadau yma yng Nghymru. Cyfle i wrando ar Gristnogion o wledydd pell ac agos yn agor ein llygaid i gael cipolwg ar y Deyrnas y soniwyd cymaint amdani gan Iesu ac a groniclir yn yr Ysgrythurau gan y dilynwyr cyntaf rheini. Gyda threigliad amser collodd y gynhadledd ei grym, gwywodd a bu farw, fel llawer agwedd arall o'n harferion ni fel enwadau yma yng Nghymru. Roedd hi'n fath ar fagwrfa Gristnogol i'r genhedlaeth ifanc. Mi ddiflannodd y gynhadledd fel ac y diflannodd y gymanfa tair sir; y gymanfa sir; oedfa'r hwyr; yr ysgol Sul i oedolion; cwrdd gweddi; cymdeithas ieuenctid ac ati. Mae'r cyfan bron wedi hen fynd i ebargofiant! O'r hyn sy'n weddill, gellid dweud bod y gwaddol hwnnw hefyd dan fygythiad.

### Llusgo byw

Ymhell cyn COVID, mi ddiflannodd patrwm dwy oedfa'r Sul ac ysgol Sul i un oedfa, ac mewn ambell fan cynhelir yr un oedfa honno ar un Sul y mis. Ydi, mae'r sefyllfa'n ddifrifol a dyrys. Am faint mwy o fisoedd y medrwn ddal i fynd fel eglwysi a ninne'n rhyw lusgo byw fel hyn? Clywed gan ffrind yn ddiweddar bod yr Eglwys Wladol yn eu pentre'n gweld cynnydd yn y gynulleidfa, gyda mewnfudwyr yn awyddus i gael oedfa Saesneg. Paham ydyn ni'r Cymry Cymraeg wedi colli blas ar grefydd a Christnogaeth yn ein cyfnod ni tybed?

### Er mwyn eraill

Yn ein gwendid, dydi uno gofalaethau a cheisio cadw pob adeilad ar agor ddim yn mynd i ddatrys y broblem. Wedi dweud hynny, mae yna 'ynysoedd gobaith' yn bodoli heddi, ac y mae'n rhaid i ni geisio deall sut y mae'r eglwysi rheini'n cadw eu tystiolaeth yn effeithiol. Cyn dechrau paratoi'r llith hwn, agorais Facebook yr enwad a gwylio fideo o weithgaredd eglwys Annibynnol Ebeneser, Dyfnant ger Abertawe, dan arweiniad tawel, di-ffws, diymffrost y Parchg Christopher Owen. Eglwys sydd wedi mentro mewn ffydd, ac o ganlyniad, wedi elwa ar brosiect Arloesi a Buddsoddi'r Undeb er mwyn estyn allan at eraill yn y pentre. Chi'n gweld, ni olygwyd erioed i'r Eglwys Gristnogol fyw iddi hi ei hunan; byw er mwyn eraill yw'n cyfrifoldeb ni.

Ble bynnag y mae yna ronyn lleia o obaith, yna mae'n rhaid ei gynnal a'i feithrin er mwyn iddo – fel unrhyw beth byw arall – flodeuo a chynyddu unwaith eto yn ein tir, rhywbryd yn yr yfory. Na, nid sôn yr ydw i fan hyn am y gofyn i blannu eglwysi newydd, yn hytrach, chwynnu yr hyn sydd gennym, er mwyn iddynt fod yn fwy effeithiol. Os na chwynnir, yna mi dagith 'chwyn anobaith, difaterwch a digalondid' y gwaddol sydd ar ôl gennym.



### Carthu mas

Mae sgerbydau gwag, gwywedig ein capeli caeedig yn gadarnhad i'r byd o'n methiant i gredu yn nyfodiad Teyrnas yr Iesu. Beth bynnag yw cyflwr ein heglwysi ni heddi, mae'n rhaid i ni weddïo a *chredu* yng ngrym Ei allu a'i ewyllys, yn hytrach nag *amau dylanwad* y gallu hwnnw. Cofiaf yn dda clywed pobol hanner can mlynedd yn ôl yn dweud bod angen diwygiad. Y gwir yw, mae'r cyfle i brofi diwygiad wedi dod a mynd lawer tro yn ystod y degawdau diwethaf. Ti a fi fethodd adnabod yr arwyddion a'r cyfleoedd! Cofiaf y diweddar Dr Gareth Evans y mathemategydd o Drefach, Cwm Gwendraeth yn annerch cyfarfod o bobol ifanc sef Cymdeithas Ieuenctid Cristnogol Cylch y Mynydd Mawr 'nôl yn y 70au cynnar, ac yn dweud, 'Mae angen i bethe newid! Sylweddolwch bobol ifanc, ma'r Bod Mowr wrthi'n carthu mas y funud 'ma!' A do, bu i'r 'Bod Mowr' garthu mas, ac i ninnau anwybyddu'r cilio am na wyddem sut a beth i'w wneud i sefydlu eglwys newydd.

### Gwerthoedd newydd

Wrth fynd o amgylch capeldai ar y Suliau caf fy nghalonogi gan y gweddill ffyddlon sy'n dal i lefaru'n dawel 'Syr, ni a fynnem weled yr Iesu.' Mae dyddie'r 'cewri' o bregethwyr wedi hen fynd; cyfnod y diogelu, amddiffyn, ysgogi, y gweini sydd gyda ni bellach, er mwyn ailadeiladu'n ffyddloniaid. Nid ni'r gweinidogion a'r offeiriaid y mae'r oes yma yn eu ceisio chwaith. Chwilio am ddysgeidiaeth, cysur a gwerthoedd newydd mae'r bobol 'ddierth' rheini sydd o'n hamgylch ni; pobol medden ni'n feirniadol sydd byth yn tywyllu unrhyw gapel neu eglwys. Eto, cofia, maen nhw hefyd yn chwilio am ryw fath o 'fara beunyddiol' i'r enaid. Nid beth a rown ar y cyfryngau cymdeithasol amdanom ni ein hunain a'n heglwysi sydd bwysig bellach, yn hytrach, yr hyn a rannwn wrth gydgerdded â'r sawl y mae Iesu o Nasareth yn gydymaith dieithr iddynt.

### Gobaith

Os ydym am oroesi'r cyfnod gaeafol hwn yn ein hanes fel dilynwyr Iesu, beth yw'r gofynion? Awydd, ewyllys, ymrwymiad, gobaith a gweledigaeth unigolion i adfywio a llwyddo. Beth yw dy obaith di felly am adfywiad yn dy ardal di wrth i ti edrych i'r yfory o dy sedd yn dy gapel, neu yn dy gadair gyfforddus adre? Os nad oes gennym ni OBAITH a'r awydd i lwyddo fel unigolion a chynulleidfa, yna'n wir, mae'r sefyllfa'n un anobeithiol llwyr. Dywed Llyfr y Diarhebion 29:18 fel hyn: 'Lle na cheir gweledigaeth, bydd y bobl ar chwâl.'

Gwell i minne dewi a bwrw am yr ardd i chwynnu fanno hefyd. Mi ddaeth bywyd newydd y gwanwyn i'r tir wedi oerni'r gaeaf. Chwynnu sydd raid, rhag ofn i'r chwyn yn y fanno hefyd gael y gorau ar yr hyn y gobeithiaf yn fawr amdano – sef cynhaeaf. Awn ati gyda'n gilydd i 'chwynnu' ac ailddarganfod gogoniant y Deyrnas yn y rhan hon o'r winllan a roddwyd i'n gofal.

**Tom Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Dyma gyfle i ymuno mewn cyfres o sesiynau fydd yn archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy'r Beibl.**

**Addoli a Phregethu**

Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall

Mae gwahanol fathau o addoliad, yn cynnwys addoliad pob oed, gwasanaethu mewn ysgolion, a gwasanaethau byr wrth ymweld ag aelwydydd. Mae cynnwys addoliad hefyd yn gallu amrywio, megis oedfa bregethu, oedfa pryd y gweinyddir un o'r sacramentau, neu oedfaon ar gyfer achlysur penodol megis priodas neu angladd.

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i archilio'r amrywiol fathau, ac ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau.

**Dyddiadau:** 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 7:00 - 8:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl**

Tiwtor: Arfon Jones

Yn allweddol i'r ffydd Gristnogol mae'r hyn a ddatguddir i ni drwy Air Duw, ac a gofnodir yn y Beibl. Drwy'r modiwl hwn, cynigir cyfle i'r sawl sy'n dilyn y modiwl gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono.

**Dyddiadau:** 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 8:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu'r ddau.**

**Dyma'r modiwlau disgwyliedig ar gyfer cymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig hefyd. Os mai dyna eich dymuniad, nodwch hynny wrth gofrestru.**

**I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Sgwrs Y Cwmni Bach yn parhau

Mae'r sgwrsio yn parhau gyda phodlediad *Y Cwmni Bach*. Yn rhifyn mis Mai caiff Elinor Wyn Reynolds gwmni'r gantores Sian Meinir o Benarth yn y stiwdio, gwestai rhifyn Ebrill mis oedd y Dr Dai Lloyd, Abertawe. Mae gan y ddau ohonyn nhw straeon diddorol i'w hadrodd a phethau da ac ardderchog i'w rhannu gyda ni. Ymunwch â nhw am orig ddifyr yn eu cwmni.

Mae'r *Cwmni Bach* yn gyfle i drafod pob mathau o bethau mewn modd hamddenol ac ymlaciedig. Rydyn ni'n hoffi clywed hanesion pobl yntydyn ni, dyma gyfle i rannu profiadau a syniadau. O wrando neu wylio'r penodau, mae'n gyfle i chithau barhau â'r sgwrs ymysg eich gilydd wedyn. Beth yw'ch barn chi am rai o'r pethau a drafodir? Oes gennych chithau brofiadau i'w rhannu?

Defnyddiwch y podlediadau unrhyw ffordd yr hoffech, eu gwylio adre, neu eu defnyddio yn lle oedfa neu noson gymdeithasol. Maen nhw'n adnodd i bawb ac maent ar gael ar sawl platfform o Spotify i AppleMusic i YouTube. Ac mae nifer o benodau eraill i'w cael hefyd gyda gwesteion mor amrywiol â Siôn Brynach, Laura Wyn, Dafydd Iwan, Menna Elfyn ac Arfon Jones. Ewch i wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i chwilio am y penodau i gyd.

Byddwch chithau'n rhan o'r sgwrs fwy, a mwynhewch.

*annibynwyr.cymru*




# Soar Nefyn

Llongyfarchiadau i blant ysgol Sul Soar, Nefyn a'u hathrawes ymroddgar Mrs Lleucu Jones am ennill y wobr gyntaf a gwobr arbennig am gywaith neilltuol yn defnyddio gwastraff yn Sioe Nefyn, er 6 Mai. Dyma ddysgu sut i barchu creadigaeth Duw a cheisio lledaenu'r neges. Da iawn Penwaig Nefyn.



## Chwi yw halen y ddaear: efengyl Mathew, pennod 5 – parhad

ynddi. Ein bod yn atal anrhefn, casineb a gwrthdaro sy'n pydru ein cymunedau gan beri diflastod. Golyga ein bod yn gweithio yn erbyn pob math o ddrygioni gan hyrwyddo cyfiawnder yn ei le. Yn edrych ar ôl y gwan a'r bregus ac yn annog gwleidyddion i wneud hynny.



### Ydw i yn halen y ddaear?

Y mae Efengyl cariad Duw yn dod a sefydlogrwydd i deuluoedd ac unigolion mewn cymdeithas sy'n gallu bod yn lle dryslyd iawn erbyn hyn. Mae geiriau'r Iesu yma yn fy herio i ystyried, ydw i yn halen y ddaear? Ym mha ffordd rwy'n ufuddhau i awgrym yr Iesu yma? Ydw i yn gwneud digon, yntau ydw i wedi meddwl mai dim ond mynd i weithgareddau Cristnogol sy'n bwysig? Ym mha ffordd y mae ein heglwys leol yn halen y ddaear?

Un o nodweddion halen yw ei fod yn gweithio'n dawel ac yn ddirgel. Tydi o ddim yn tynnu sylw ato'i hun, tydi o ddim yn amlwg yn yr hyn mae'n wneud.

Wrth gloi ar hyn sylwch fod Iesu yn dweud halen y *ddaear*. Mor fawr yw gorwelion Iesu. Nid yw ei newyddion ar gyfer rhyw gornel fach o'r byd ond ar gyfer y ddaear *gyfan*.

*[Y tro nesaf fe edrychwn ar eiriau'r Iesu, 'Chwi yw goleuni'r byd'.]*

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

## Cwrdd Chwarter



Mabon ap Gwynfor, AS

***90 eiliad i Armagedon***

Y bygythiad niwclear,
a chyflwr Gasa

Capel Ty'n-y-coed, Abercraf

**Nos Lun,**
**10 Mehefin, 2024**

am 6.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb

*Bydd dishgled a theisen yn y 'Penycae' i ddilyn*



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*